

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn (Hepgor) Contractau Adeiladu (Cymru) 2023

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn (Hepgor) Contractau Adeiladu (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
14 Mawrth 2023

1. Disgrifiad

1.1. Mae'r offeryn hwn yn hepgor dau fath o gontract adeiladu o ddarpariaethau Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("y Ddeddf"):

- Contractau Darparwyr a Benodir ar sail Cystadleuaeth (CAP) Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid (DPC) - wedi'u hepgor o holl ofynion Rhan 2 o'r Ddeddf; ac
- Is-gontractau Haen Gyntaf Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid (DPC) - wedi'u hepgor o adran 110(1A) o'r Ddeddf.

1.2. Mae'r ddau fath o gontract yn rhan o fodel caffael newydd o'r enw Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid (DPC) ar gyfer ariannu, dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw seilwaith dŵr a charthffosiaeth gwerth uchel.

1.3 Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth o ran telerau contractau adeiladu a materion cysylltiedig. Mae'r Gorchymyn yn hepgor o Ran 2 o'r Ddeddf yn ei chyfanrwydd rai contractau prosiect seilwaith mawr lle mae parti yn y contract yn ymgwymerwr carthffosiaeth neu ddŵr, yn amodol ar y gofynion canlynol.

1.4 Rhaid i'r contract ymwneud â phrosiect a ddynodir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) fel ymarfer caffael uniongyrchol am brosiect cwsmeriaid yn unol ag amodau penodiad yr ymgwymerwr perthnasol. Rhaid i'r cyfryw gontractau hefyd gynnwys gwneud taliadau rheolaidd gan gyfeirio at y gwir gostau yr aed iddynt ac a ddaw'n ddyledus ar ôl cwblhau un rhan neu fwy nag un rhan o'r gweithrediadau adeiladu a'u bod yn gallu cyflawni gwasanaeth carthffosiaeth neu ddŵr.

1.5 Mae'r Gorchymyn hefyd yn eithrio adran 110(1A) o'r Ddeddf rhag bod yn berthnasol lle mae parti mewn cyfryw gontract yn ymrwymo i is-gontract. Mae adran 110(1A) o'r Ddeddf yn darparu nad yw'r gofyniad bod contractau'n darparu mecanwaith digonol ar gyfer sefydlu pa daliadau sy'n dod yn ddyledus a phryd o dan y contract yn cael ei fodloni os yw'r taliad yn amodol ar rwymedigaethau'n cael eu cyflawni o dan gontract arall.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru wneud y Gorchymyn gan adrannau 106A(2) a 146 o'r Ddeddf.

3.2 Yn unol ag adran 106A(4)(a) o'r Ddeddf, rhaid i ddrafft o'r Gorchymyn hwn gael ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad Senedd Cymru (y weithdrefn gadarnhaol).

4. Diben ac effaith fwriedig y ddeddfwriaeth

4.1. Mae Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid (DPC) yn fframwaith caffael a ddyluniwyd gan Ofwat ac sy'n cael ei reoleiddio ganddo er mwyn i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth dendro'n gystadleuol am i drydydd partiön ddylunio, adeiladu, ariannu, gweithredu a chynnal a chadw asedau seilwaith ar raddfa fawr lle mae

Ofwat o'r farn bod hyn yn cynnig gwell gwerth am arian i gwsmeriaid. Ei amcan yw darparu prosiectau seilwaith dŵr neu garthffosiaeth mawr yn effeithlon

4.2 Mae cytundeb CAP DPC yn contract rhwng cwmni dŵr neu garffosiaeth a benodwyd gan Ofwat a CAP, a lwyddodd mewn proses gaffael gystadleuol. Mae'r CAP yn debygol o fod yn gyfrwng diben arbennig, sy'n eiddo i gonsortiw m preifat sy'n debygol o gynnwys cwmni adeiladu, cyllidwr a darparwr gwasanaethau.

4.3 Mae Is-contract Haen Gyntaf DPC yn contract rhwng y CAP i cytundeb DPC a thrydydd parti (y prif contractwr adeiladu) lle mae'r CAP yn is-contractio rhwymedigaethau adeiladu yng nghytundeb CAP DPC i'r trydydd parti dan sylw.

4.4 Mae un cytundeb CAP DPC arfaethedig yng Nghymru ynghylch gwaith trin dŵr Cwm Taf Dŵr Cymru ("Cwm Taf"). Gwaith trin dŵr newydd, mawr a datblygedig yw hwn sy'n gwasanaethu llawer o'r De-ddwyrain, ac mae'n cymryd lle tri gwaith trin presennol lle mae problemau ynghylch ansawdd dŵr crai sy'n dirywio a lle nad yw cynnal a chadw yr asedau presennol yn ymarferol mwyach.

4.5. Bydd y gwaith o weithredu a chynnal a chadw'r gwaith hwn yn cael ei gadw'n fewnol gan y cwmni dŵr - bydd y gwaith dylunio, ariannu ac adeiladu yn dod o fewn cwmpas CAP DPC.

4.6. Sefydlodd Ofwat egwyddor gyffredinol ar gyfer prosiectau DPC na fyddai cwsmeriaid yn dechrau talu am yr ased hyd nes y byddai'n weithredol, sy'n cyd-fynd â modelau cyllid prosiectau eraill. Mae risg o her gyfreithiol ynghylch y dull hwn o dan y Ddeddf wedi'i nodi.

4.7. Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith ar gyfer agweddau allweddol ar contractau adeiladu, gan gynnwys:

- mecanwaith digonol ar gyfer penderfynu pa daliadau sy'n dod yn ddyledus o dan y contract, a phryd. Nid yw'r gofyniad hwn yn cael ei fodloni pan fydd unrhyw amod contractiol yn gwneud taliad yn amodol ar gyflawni rhwymedigaethau o dan contract arall, neu ar benderfyniad gan unrhyw berson ynghylch a yw rhwymedigaethau o dan contract arall wedi'u cyflawni (y cyfeirir atynt fel cymalau 'tal ar ôl tâl'); a
- hawl statudol i bartïon mewn contract adeiladu gyfeirio anghydfod at ddyfarniad.

4.8. Os yw contract adeiladu yn hepgor ymdrin â mater neu'n ymdrin ag ef mewn ffordd nad yw'n bodloni gofynion y Ddeddf, mae'r Ddeddf yn mewnosod Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 yng nghytundeb CAP DPC, a fyddai wedyn yn cael blaenoriaeth dros y darpariaethau talu a datrys anghydfod presennol yn y contract.

4.9. Mae Ofwat wedi nodi na ddylai cwmnïau dŵr dalu'r CAP ar gyfer y prosiectau hyn nes y byddant wedi cael eu cwblhau a dod yn weithredol fel na fydd rhaid i gwmnïau dŵr (a ariennir gan filiau cwsmeriaid) dalu cyn i'r gwaith gael ei gwblhau a'i gyflawni. Mae hyn yn dileu'r risg y bydd talwyr biliau dŵr yn talu am brosiectau nad ydynt yn cael eu cyflawni.

4.10 Mae cytundebau CAP DPC yn dod o dan ddiffiniad y Ddeddf o gontract adeiladu. Gall yr amod o wneud taliad ar ôl i'r ased gael ei gwblhau yn unig fod yn destun her gan y CAP neu eraill am beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf oni bai bod y Gorchymyn hwn yn cael ei wneud. Er y gall y cwmni dŵr ddatblygu a dod i gytundeb ar y sail hon, mae risg y gallai CAP gyflwyno her ar ôl iddo ymrwymo i'r cytundeb, er enghraifft, pe bai'r berthynas rhwng yr ymgymwrwr a'r CAP yn chwalu. Pe bai'r CAP yn llwyddo i herio'r amodau talu a/neu'r mecanweithiau anghydfod yng nghytundeb CAP DPC, byddai cwsmeriaid y cwmni dŵr yn cael eu heffeithio a gallent dalu mwy yn y pen draw nag y byddent yn ei dalu fel arall drwy filiau dŵr cynyddol.

4.11. Bydd gan bartïon sy'n ymrwymo i gaffaeliadau DPC wybodaeth lawn am y telerau, gan gynnwys y ffaith y bydd y taliad hwnnw ond yn dechrau ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau. Yn bwysig, bydd mecanweithiau datrys anghydfod amgen yn cael eu cynnwys yng nghytundeb CAP DPC. Mae gan bob DPC rôl cynghorydd technegol annibynnol (ITA) gyda dyletswydd gofal ar y cyd i'r CAP, y sawl a benodwyd ac Ofwat. Mewn perthynas â rhai materion, bydd penderfyniad yr ITA yn derfynol ac yn rhwymol. Ar gyfer materion eraill, bydd proses datrys anghydfod (DPC) wedi'i nodi yn y Cytundeb CAP rhwng y cwmni dŵr a'r darparwr a benodwyd ar sail cystadleuaeth (CAP). Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys proses ar gyfer uwchgyfeirio'r anghydfod i lefelau uwch y sawl a benodwyd a'r CAP ac, os nad yw hynny'n datrys yr anghydfod, gall y weithdrefn ganiatáu cyfryngu a bydd yn caniatáu datrys yr anghydfod drwy gymrodeddu neu ddatrysiaid gan banel arbenigol.

4.12 Ar hyn o bryd, dim ond i brosiect arfaethedig Cwm Taf y bydd y Gorchymyn hwn yn berthnasol yng Nghymru. Os nad oes unrhyw gynigwyr posibl ar gyfer prosiect Cwm Taf, gallai'r cwmni dŵr ymgymryd â'r gwaith hwn yn fewnol neu drwy fecanweithiau caffael eraill.

4.13 Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud Gorchymyn tebyg yn Lloegr - Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Lloegr) 2022.

5. Ymgynghoriad

Gan fod y Gorchymyn yn darparu gwelliant cyfyngedig, sy'n effeithio ar nifer fach o fusnesau ac nad yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Buom yn ymgynghori'n anffurfiol â Dŵr Cymru ac Ofwat, a oedd yn cefnogi gwneud y Gorchymyn hwn, a gwnaethom wahodd sylwadau gan CECA a'r Gymdeithas Contractwyr Trydanol a'r Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad.

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r polisi:

i) Busnes fel arfer - Cadw'r sefyllfa bresennol

Costau a Manteision

Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Sefydlodd Ofwat egwyddor gyffredinol ar gyfer prosiectau DPC na fyddai cwsmeriaid yn dechrau talu am yr ased hyd nes ei fod yn weithredol, sy'n gyson â modelau cyllid prosiectau eraill. Os na wneir y Gorchymyn hwn, mae risg o her gyfreithiol ynghylch y dull hwn os bydd anghydfod yn codi. Mae risg y gallai fod yn ofynnol i gwsmeriaid cwmni dŵr dalu am waith cyn iddo gael ei gwblhau drwy filiau dŵr a charthffosiaeth uwch.

Nid oes unrhyw gostau na manteision amlwg i fusnesau o'r opsiwn hwn.

ii) Gwneud Gorchymyn (Hepgor) Contractau Adeiladu (Cymru) 2023

7. Costau a Manteision

7.1 Mae cwmpas y Gorchymyn hwn yn hynod o gul. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.4, ar hyn o bryd dim ond un prosiect arfaethedig sydd ar waith yng Nghymru y gallai'r Gorchymyn fod yn berthnasol iddo. Nid oes disgwyl i'r Gorchymyn osod unrhyw ddyletswyddau neu gostau ychwanegol ar fusnesau neu gwmnïau dŵr; yn hytrach, bydd yn rhoi eglurder ynghylch amseru taliadau ar gyfer prosiect DPC a'r mecanwaith datrys anghydfod perthnasol.

7.2 Byddai unrhyw fusnes sy'n ystyried tendro am waith ar brosiect DPC yn gwneud hynny yn gwbl ymwybodol o delerau'r gorchymyn hwn. Pe bai'r holl gynigwyr posibl yn dewis peidio â gwneud cais, ac na fyddai unrhyw dendrau boddhaol o ganlyniad i hynny (nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai hyn yn digwydd), gallai'r gwaith barhau i gael ei wneud neu ei drefnu'n fewnol gan y cwmni dŵr y tu allan i'r mecanwaith DPC.

7.3 Ni fyddai canlyniad unrhyw anghydfod o reidrwydd yn fwy neu'n llai ffafriol i'r naill barti neu'r llall, ac nid oes unrhyw gostau amlwg i fusnesau, y cwmni dŵr na chwsmeriaid y cwmni dŵr yn sgil yr opsiwn hwn. Mae defnyddio'r DPC yn darparu mecanwaith anghydfod integredig o fewn y fframwaith, ac mae gwneud y Gorchymyn hwn yn rhoi sicrwydd y bydd y mecanwaith DPC yn cael ei ddefnyddio.

7.4 Mantais gwneud y Gorchymyn hwn yw dileu'r risg y bydd cwsmeriaid y cwmni dŵr a charthffosiaeth yn gorfod talu drwy eu biliau am gostau gwaith sydd heb ei gwblhau gan gontractwr tra bod anghydfod yn cael ei ddatrys.

7.5 Mae gwneud y Gorchymyn yn sicrhau bod dull cyson o ran prosiectau DPC yng Nghymru a Lloegr.

8. Aseiad o'r Gystadleuaeth

Nid oes disgwyl i'r Gorchymyn effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau Cymru.